**Archarwyr Byd Cyw**
**Cyw Superheroes**
**Clic!**
**gan Sioned Wyn Roberts**

1. Mae Bolgi yn lwcus iawn. Mae e wedi cael camera newydd sbon ac yn mynd i dynnu lluniau o Archarwyr Cyw i gyd.

2. Mae popeth yn barod – y camera ar y treipod, y fflachlamp yn sgleinio, a'r cyrten bach du dros y cyfan.
"Amdani, Archarwyr!" meddai Bolgi. "Pwy sy gynta?"

3. Cyw: Siwpyr-bŵer: neidio yn uchel.
Jangl: Siwpyr-bŵer: mynd yn gyflym iawn.
Triog: Siwpyr-bŵer: dod â phethau pell yn agos.
Llew: Siwpyr-bŵer : gwneud bybls.
Plwmp: Siwpyr-bŵer : chwythu.

4. Ar ôl i Bolgi osod lluniau'r archarwyr ar y wal, roedd pawb wrth eu boddau.
"Am luniau ardderchog!" meddai Plwmp. "Diolch, Bolgi!"

5. Ond roedd Bolgi yn teimlo'n drist. Doedd e ddim yn archarwr, doedd ganddo ddim siwpyr-bŵer ac felly doedd dim llun ohono ar y wal.

6. Camodd Bolgi i ffwrdd. Ond, ar ddamwain, llithrodd ar un o fybls sebonllyd Llew a tharo i mewn i'r camera. O, na! Trychineb!

7. "Bolgi, edrycha! Ti'n archarwr," meddai Llew.
Rhywsut, roedd Bolgi wedi tynnu llun ohono'i hun yn yr awyr. Llun arbennig iawn.
Bolgi: Siwpyr-bŵer: tynnu lluniau.

1. Bolgi is very lucky. He has a brand-new camera and is going to take pictures of all the Cyw Superheroes.

2. Everything is ready – the camera on the tripod, the flash shining, and the little black curtain over it all.
"Come on, Superheroes!" says Bolgi. "Who's first?"

3. Cyw: Superpower: jumping high.
Jangl: Superpower: moving very fast.
Triog: Superpower: bringing faraway things close.
Llew: Superpower: making bubbles.
Plwmp: Superpower: blowing.

4. After Bolgi put the superheroes' pictures on the wall, everyone was delighted.
"What amazing pictures!" said Plwmp. "Thank you, Bolgi!"

5. But Bolgi felt sad. He wasn't a superhero, he didn't have a superpower, so there wasn't a picture of him on the wall.

6. Bolgi stepped away. But he accidentally slipped on one of Llew's soapy bubbles and crashed into the camera. Oh, no! Disaster!

7. "Bolgi, look! You're a superhero," said Llew.
Somehow, Bolgi had taken a picture of himself in the air. A very special picture.
Bolgi: Superpower: taking pictures.